Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
7Mai 2015 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Sioned Williams, Ifor Dylan Williams, Rhys Pugh, Emyr Williams, Chris Hughes
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Gwyneth Thomas, Ian Jones, Geraint R. Jones, Dafydd Iwan, Ed Huws,

2. DATGAN BUDDIANT

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Sioned WIlliams
Eilio: Erddyn Davies

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Eglwys Sant Baglan

Mae'r Clerc wedi derbyn copi gan y Llyfrgell Genedlaethol o ddogfen trosglwyddiad 27 Hydref 1925 rhwng Comisiynwyr yr Eglwys yng Nghymru o Eglwys Sant Baglan i Gadeirydd a Goruchwylwyr Plwyf Llanfaglan.

Mae'r ddogfen yn dangos fod Comisiynwyr yr Eglwys wedi trosglwyddo'r fynwent o gwmpas yr Eglwys i Gadeirydd a Goruchwylwyr Plwyf Llanfaglan yn 1925. Nid oedd yr Eglwys yn rhan o'r trosglwyddiad hwnnw, ond mae'r cynllun yn dangos fod y tir oedd yn cwmpasu'r Eglwys yn rhan o'r trosglwyddiad.

Bydd y Clerc yn ymweld â safle'r Eglwys er mwyn cysoni'r Cynllun efo'r sefyllfa ar lawr daear.

4.2 Grant Presenoldeb ar y We

Mae Delwedd wedi diwygio gwefan Ysgol Bontnewydd ac wedi sicrhau fod cysylltiad uniongyrchol i dudalen Cyngor Cymuned Y Bontnewydd drwy ddefnyddio www.cyngorbontnewydd.cymru.

4.3 Baw cŵn a thipio slei bach

Cafodd y Cynghorydd Gwyneth Thomas gyfarfod safle efo Peter Simpson a Clive Price, swyddogion Cyngor Gwynedd.

Bydd Cyngor Gwynedd yn trefnu glanhau'r safleoedd parcio o fwsog, sbwriel sac yn torri'r drain.

Yr unig ateb i'r tipio slei bach yw rhoi ffens wifren i gau'r adwy, ond does dim mwy o dipio wedi digwydd yn ddiweddar, ac felly awgrymwyd nad oes angen cymryd camau pellach os nad yw'r broblem yn digwydd eto.

4.4 Datblygiad Cefnwerthwyd

Cafodd y Clerc ateb gan Watkin Jones yn nodi fod y datblygiad yng Nghefnwerthwyd wedi ei atal am gyfnod oherwydd y dirwasgiad. Yn ogystal mae angen i Nwy Prydain wneud gwaith i ddargyfeirio piben nwy. Fodd bynnag, y bwriad yw datblygu'r safle yn hwyr yn 2016, gyda thai yn barod i'w gwerthu rywbryd yn 2017.

4.5 Gan Bwyll

Ysgrifennodd y Clerc at Gan Bwyll, ac mae hi wedi dod i'r amlwg fod camddealltwriaeth wedi bod rhwng yr Heddlu lleol a Gan Bwyll.

Y bwriad yw dileu'r fan sy'n goruchwylio goryrru yn Saron. Does dim bwriad i ddileu'r fan o Lanfaglan, a bydd honno'n parhau, er yn ddarostyngedig i adolygiad blynyddol fel pob safle arall.

4.6 Ffordd osgoi Bontnewydd

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y llythyr ysgrifennodd y Clerc yn codi amrywiol bwyntiau am y ffordd osgoi.

Disgwylir ateb erbyn cyfarfod Mehefin.

5.MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerc Ebrill 2015

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18
Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio CThem a Llyfrgell Genedlaethol Cymru £1.06

5.3 Costau prynu Cyngorbontnewydd.cymru

5.4 Glanhau cysgodfanau Tachwedd 2014 i Mai 2015, anfoneb 1429 £270.00

5.5 Costau Owain Bebb a'i Gwmni – paratoi P60 £144.00

5.6 Talu Ysgol Bontnewydd am sefydlu gwefan £270.00

5.7 Derbyn £270.00 gan Gyngor Gwynedd, grant gwefan

.

5.8 29 Ebrill derbyn Praesept Cyngor Gwynedd £7,250

Balans yn y banc 7 Mai 2015 £10,932.17

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

Dim

7. GOHEBIAETH

- Gwasanaeth Cynllunio ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd - er gwybodaeth
- Ymateb Un Llais Cymru i Bapur Gwyn, Diwygio Llywodraeth Leol – er gwybodaeth
- Llythyr gan Lywodraeth Cymru ar dwristiaeth cadwraeth - er gwybodaeth
- Cylchdro Glan Beuno - y gwaith wedi ei ohirio tan ddechrau Mehefin
- Diweddariad Swyddfa'r Post - cadarnhad o fwriad Swyddfa'r Post i ail-leoli Post Bontnewydd yn siop Mc Coll's yn dilyn yr ymgynghoriad

8. MATERION ERAILL

8.1 Mainc Llanfaglan

Mae angen trin y fainc gan ei bod yn dangos olion traul wedi'r gaeaf. Yn ogystal mae chwyn yn tyfu trwy'r gwastraff llechi. Y Clerc i ofyn am bris ac i weld os yw hi'n bosibl gwneud unrhyw beth o ran y chwyn..

9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
Mehefin 4 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd